Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned

Nos Lun, 11 Mawrth 2025 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan.

Presennol: Griffith Jones, Jina Gwyrfai, Lois Fychan, Olwen Roberts, Sianelen Pleming, Ynyr Elis, Osian Williams, Gethin Jones (cadeirydd).

| |
|---|
| Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan GJ a chytunodd SP i gymryd cofnodion. |
| Ymddiheuriadau: William Jones, Derek Thomas. |
| Cyflwynwyd a mabwysiadwyd cofnodion 24 Chwefror a'r cyfarfod brys. |
| Datgan Diddordeb: neb |
| Diweddaru Asedau: dim i'w adrodd. SP yn nodi bod llythyr ar gyfer defnydd Tŷ'r Ysgol o'r arhosfan bws yn barod i'w arwyddo. |
| <u>Materion yn codi</u><br>a) Materion nad yw'r Clerc wedi cael cyfle i ymdrin â nhw – dod yn nes ymlaen yn y rhaglen.<br>b) Angen llofnodi 'Deed of Easement' – Cyfarfod rhwng OR, YE a SP ym Mwlch y Mynydd a SP wedi cael gair efo Dafydd Rhun. Angen egluro pa draen sydd dan sylw yn y ddogfen. Dafydd Rhun wedi anfon e-bost i gyfreithiwr Einir Young ein bod yn awyddus i fynd yn ôl i'r sefyllfa syml oedd yn bodoli ar y dechrau gan ddangos lle yn union mae'r draen (ditch). Mae hawl gan y cadeirydd, is-gadeirydd i arwyddo yn ôl cyfreithiwr y cyngor.<br>c) Banc – OR am fynd i'r banc fory i newid cyfeiriad ar y banc.<br>d) Drain mynwent Llithfaen- Y privets wedi eu torri. GJ am wneud cais i Gyngor Gwynedd chwistrellu y drain ar ôl cael caniatâd y capel.<br>e) JG i gysylltu i wagio bin baw ci ben Nant.<br>f) Safle we CCPistyll- person llwyddiannus wedi prynu'r domain ccpistyll.cymru a'r gwaith ar y gweill. Nid ydi'r cyngor wedi cofrestru fel cyflogwr ar PAYE.<br>g) Cofrestru efo PAYE - Mae angen gwneud hyn yn gyfreithiol ar gyfer cyflogi clerc newydd. Roedd Eurwyn Williams (y clerc blaenorol) wedi cofrestru. |
| Sefyllfa Clerc Cyngor Cymuned Pistyll : Mae dau gyngor cymuned yn yr un sefyllfa.<br>• Is gadeirydd un o'r cynghorau eraill yn gweithio i adran dechnoleg Cyngor Gwynedd. GJ wedi bod efo fo ac wedi cael mynediad at y ffeiliau. Dim ond lincs oedd amryw o'r dogfennau felly bydd rhaid cael mynediad i'r One Drive ac mae angen datgloi y laptop a bydd rhaid cydweithio efo teulu Gillian i gael mynediad trwy'r ffôn.<br>• Angen hysbysebu swydd clerc Pistyll mor fuan â phosib. Trafodwyd dechrau o'r newydd dan glerc newydd, y clerc i fod yn gyfrifol am lai o bethau e.e. safle'r we, defnyddio sharepoint fel bod y cadeirydd ac unrhyw aelod o'r cyngor yn gallu monitro a chymryd cyfrifoldeb. Mae opsiwn i benodi dros dro hefyd. JG y dweud bod posib cyflogi am 3 mis. Cynigiwyd gosod sharepoint ac eiliwyd y cynnig.<br>• Pecyn gan 'Unllais' i fod wedi dod ond heb gyrraedd.<br>• Cabinet ffeilio cyngor yn dod o'r trwmbal wythnos nesaf. Nid oes dim o gyfnod Gillian yn y cabinet. SP yn edrych yn y cyfrifiadur os oes swydd ddisgrifiad yn dogfennau hanesyddol.<br>• Angen sicrhau bod y polisiau yn eu lle yn cynnwys cyfansoddiad a threfn y cyfarfodydd. |

| |
|---|
| Ceisiadau Cynllunio - dim. Bydd angen i'r clerc newydd argraffu ceisiadau cynllunio ar gyfer y cyfarfodydd. |
| Llecynnau angen eu harddu – Edrych ar hen ddogfennau i weld beth ydi hanes y tir yn hanesyddol pan fydd y trwmbal wedi ei wagio. |
| Y Ganolfan, Llithfaen / Prydles y Ganolfan. Neb yn gwybod lle mae'r brydles – efallai ei fod yn y dogfennau yng nghyfrifiadur Gillian.<br><br>Atgoffwyd y cyngor bod y cyngor yn cefnogi cais i sefydlu maes parcio yn y Ganolfan. Paratowyd llythyr i berchennog Tŷ'r Ysgol i glirio erbyn dechrau Mai ac yn byddai'r maes parcio wedi ei wneud erbyn mis Gorffennaf. Penderfynwyd y byddai'r cadeirydd yn arwyddo'r llythyr ar ran y cyngor cymuned. Bydd pris go iawn erbyn cyfarfod mis nesaf.<br><br>Bydd cyfarfod blynyddol y Ganolfan ym mis Mai. Cafwyd trafodaeth ar y posibilrwydd o symud y cyfarfod blynyddol oherwydd yr ansicrwydd. |
| Archwiliad allanol /mewnol :<br><br>Cadeirydd wedi cyfarfod efo cynghorydd o gyngor arall. Bob dim yn iawn efo archwiliad mewnol CCP. Safle we ddim yn iawn e.e. cynghorwyr, cofnodion.<br><br>Archwiliad allanol- angen cysylltu efo nhw a Cyngor Gwynedd yn pasio beth sydd ganddyn nhw am y flwyddyn olaf ond bydd angen blynyddoedd 24-25 ym mis Mehefin/Gorffennaf. Lis Saville Roberts am ysgrifennu llythyr dros y cynghorau i ofyn am ras. |
| Hyfforddiant Unllais Cymru :<br><br>Angen mynd ar gyrsiau er mwyn cael arbenigedd yn y gwahanol feysydd e.e. y cyngor fel cyflogwr.<br><br>Pwysig i'r panel penodi/disgyblu fynd ar gwrs er mwyn bod yn ymwybodol o'r rheolau. |
| Gohebiaeth<br><br>Cyngor Gwynedd yn cynnal arolwg sydd yn cau ar y 24ain o Fawrth. |
| <u>Cyllid</u><br><br><u>Ll</u>ythyr am arian gan y clwb snwcer.<br><br>Penderfynwyd trafod y ceisiadau mis nesaf ar ôl cael mantolen o'r banc a bod angen mantolen ar gyfer bob cais. |
| Unrhyw Fater Arall /materion lleol<br><br>Y garreg a godwyd y mis diwethaf wedi ei chladdu.<br><br>Goleuadau wrth yr iard lo ddim yn gweithio. |
| Cyfarfod nesaf : Ebrill 8fed 2025 Ganolfan Llithfaen am 7 or gloch. |